Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 15fed o Ionawr 2026 yng Nghanolfan PENRHOSGARNEDD am 7.00

1. **Presennol: /Present**
   Cyng I Ellis Cadeirydd; Cyng C W Owen Is Gadairydd; Cyng J Pierce; Cyng L A James; Cyng D Jones-Morris; Cyng J Griffiths;; Cyng A Joyce; a'r Clerc
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng M Jones; Cyng G Owen; Cyng H Griffiths; Cyng B Jones a'r Cyng E Roberts.
3. **Croeso / Welcome**
   Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf 2026 a dymuno Blwyddyn Newydd Dda Croesawodd Lowri Gwyn – cyfieithydd ar y pryd i'n plith
4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Datgelodd Cyng A Joyce a Cyng L A James eu bod yn ymddiriedolwyr Canolfan Penrhosgarnedd Cyng J Griffiths yn datgan diddordeb wrth drafod mater Canolfan Glasinfryn (Pwynt 9)
5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 13eg o Dachwedd / November 2025**
   Datgelodd y Cyng A Joyce for geiriad y cofnodion yn anghywir
   Dywedodd nad oedd wedi 'gwrthod gadael yr ystafell' ond dweud 'nad oedd angen iddo adael yr ystafell gan nad oedd ganddo ddim i'w wneud a'r ganolfan newydd'.
   Ceisioedd y Cadeirydd egluro bod y mater o symud y ganolfan gymdeithasol o un safle i'r llall yn rhan o'r un prosiect, ac i'r perwyl hyn roedd yn bwysig bod y rhai, fel y Cyng Joyce sydd yn amlwg a buddiant yn bod yn dryloyw ac yn camu allan o'r trafodaethau. Ychwanegodd y cadeirydd enghraifft o lle y bu i'r Cyng Joyce ymyrryd eisoes drwy ddatgelu gwybodaeth a rannwyd yn gyfrinachol mewn cyfarfod o'r cyngor hwn, gan ei rannu gyda cadeirydd Pwyllgor y ganolfan bresennol, gan yna anfon llythyr at y defnyddwyr yn nodi bod rhaid iddyn ymadael a'r ganolfan presennol ar y 31 o Ragfyr 2025. Roedd y weithreded hynny yn gwbl groes i ddymuniad ac amserlen nid yn unig y cyngor hwn, ond amserlen Cyngor Gwynedd hefyd. Oherwydd hyn, nododd y cadeirydd ei bod yn ddarbodus felly iddo ofyn i'r Cyng Joyce ymadael a'r trafodaethau am y ganolfan newydd hyd nes bod ei berthynas a'r elusen bresennol wedi llwyr dod i ben.
   Penderfynodd y Cyng Joyce ar y pwynt yma i ymadael a'r cyfarfod gan nodi ei bod yn amlwg ei fod yn cael ei eithrio yn fwriadol.
   Yn sgil sylwadau y Cyng Joyce, a'r angen i wneud penderfyniad ynglŷn a chywirdeb y cofnodion blaenorol, cynigwyd gan Cyng Carol Owen ac eiliwyd gan y Cyng J Pierce, ac yn unfrydol cytunwyd bod y cofnod o ymddygiad y Cyng Joyce yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2025 yn un cywir ac y bu i'r rhai oedd yn bresennol gadarnhau bod y Cyng Joyce wedi gwrthod ymadael gan achosi i'r cyfarfod ddod i ben heb unrhyw drafodaeth na diweddariad am y ganolfan newydd. Yn sgil yr amserlen tynn yn ogystal a'r gwyliau Nadolig, gwelwyd hyn yn risg eithriadol i lwyddiant y prosiect.

   **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   Cyng LAJ - Sioned Glyn bellach wedi cwblhau murlun Penrhos ac yn awyddus i'w osod bellach ar y wal yn y ganolfan newydd. Y Clerc i holi os oedd posib i yn G Hughes ddod draw i'w osod.
   Murlun Pentir ar y gweill a'r Arlunydd yn awyddus i gael enwau lleol i'w ychwanegu arno Bydd Print

o'r Murlun hwnnw ar gyfer Canolfan Glasinfryn Cyng J Griffiths yn awyddus os yn bosib cynnwys y pontydd a cyfeirwyd at yr hen enw Bont Ty Gwyn am yr ardal

Y Clerc mewn cyswllt gyda Cyngor Gwynedd a Cwmni Keyhoe i sefyddlu y ddol flodau ond oedi wedi digwydd oherwydd y tywydd gwlyb anffafriol

Cyfrif Banc

Angen trefnu ar lein bod y Cyngor yn gallu talu ar lein yn hytrach na sieciau a hefyd angen agor cyfrif arwahan i'r Ganolfan Newydd

**Cyng L A J a'r Clerc i drefnu**

**6.** Materion ariannol / Financial Issues

i. **Cadarnhau Cyllideb/gosod Praesept**

Rhanwyd y ffurflenni oedd wedi eu darparu gan y Clerc yn dangos ei costau refeniw a'n cyfrifon presennol Cyfrifon sy'n cynnwys arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer addasiadau ychwanegol o fewn y Ganolfan newydd oedd y Cyngor yn awyddus i'w cael ond ddim wedi eu cynnwys yn nghynlluniau Cyngor Gwynedd Cafwydd trafodaeth ystyriol iawn wrth drafod cyllideb ar gyfer 2026-27 ac o gofio nad oedd y cyngor wedi codi ei precept o £55K ers rhai blynyddoedd 'roedd yn anorfod bron bod rhaid codi eleni.

Cafodd codi precept o £58K ei gynnig gan y Cyng D Jones-Morris a'i eilio gan Cyng J Pierce

**Cafodd y cynnig ei basio yn unfrydol**

**Clerc i gysylltu ag Adran Gyllid Cyngor Gwynedd**

ii. **Mantolen ariannol / Financial report**

**iii. Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/11/2025**

Derbynnwyd y fanolen ariannol a'r Cofnodion

**iv. Cais am Nawdd**

1. **Ysgol Tryfan** Cais a mantolen wedi ei derbyn Argymell £300
2. **Carnifal Bethesda** Dal i ddisgwyl am ei mantolen
3. **Llais Ogwan** Cais a mantolen wedi ei derbyn Argymell £300

v. **Cais i noddi Ysgol Tryfan** drwy rhoi hysbyseb yn rhaglen Sioe Matilda'r ysgol ym mis Ionawr 2025. Cyng LAJ wedi ymgynghori ar lein hefo'r holl gynghorwyr a chael eu barn gan bod yr amser yn brin. Wedi derbyn mwyafrif o blaid a felly wedi anfon dau hysbyseb hanner tudalen – hanner i Cyngor Pentir a hanner ar gyfer y Ganolfan Newydd Cost o £100. Cymeradwywyd y gwariant hyn gan y cyngor llawn.

**Clerc i drefnu anfon siec i'r Ysgol.**

**Polisia** Mabwysiadu Polisi Meinciau Fynwent / Adopt Policy Cementry Benches

'Roedd y Polisi wedi ei rannu hefo pob Cynghorydd ar lein a neb wedi anfon sylwadau negyddol yn ol

Cafodd y polisi ei fabwysiadu ar gynnig **Cyng CW Owen ei eilio gan Cyng J Pierce a'i dderbyn yn unfrydol**

**8. Cynllunio / Planning**

C25/0898/25/TC Dairy Building 2, Park Y Faenol, , Bangor, LL57 4BP Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon i gadarnhau defnydd yr adeilad fel gweithdy Diwydiannol Cyffredinol B2 Y Faenol

**Dim tystiolaeth i'r gwrthwyneb**

**9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**

Bu i'r pwyllgor cyllid gyfarfod a swyddogion o Wynedd a Penaeth Ysgol y Garnedd dydd Gwener 9fed o Ionawr i darfod sut y byddwn yn cyd-weithio o ddiwedd Ionawr ymlaen
Gan y bydd dymchwel y ganolfan bresennol a chreu y maes parcio newydd yn golygu na fydd posib parcio i naill ai defnyddwyr y Ganolfan na'r Ysgol am 12 wythnos (amcangyfrif) gofynwyd os oedd posib cael lleoliad addas arall gan Cyngor Gwynedd
Awgrymwyd adeilad InTec ar Parc Menai ond byddai angen amserlen y defnyddwyr a threfnu ymweliad
**Clerc i anfon yr amserlen mae wedi ei dderbyn a Swyddog Stadau Gwynedd am drefnu ymweliad**
Swyddog Stadau Gwynedd hefyd am addasu y drwydded i dderbyn allwedd yn unig i'r ganolfan newydd er mwyn gallu dangos yr ystafelloedd i'r defnyddwyr

- **Costau Clirio Coed yng Ngaholfan Glasinfryn**

Gadwaodd y Cyng J Griffiths y Cyfarfod
Cais gan bwyllgor Canolfan Glasinfryn am ad-daliad costau torri a tocio coed ar eu safle o ran diogelwch y cyhoedd Cost o £3K
Cytunwyd talu'r cyfan gan mae eiddo Cyngor Pentir ydi'r safle a chyfrifoldeb y cyngor yw sicrhau bod y safle yn ddiogel

- **Capel y Fynwent Llnau – costau £265 + TAW**

Wedi derbyn pris gan Menai Cleaning ar ol iddynt ymweld a'r safle **Cytunwyd derbyn y pris a gofyn iddynt ymgymeryd a'r gwaith**

**10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**
Dim
**11. Newyddion**
Dim yn sgil cyfnod gwyliau

**Daeth y cyfarfod i ben a' 9.00**

Cyngor Cymuned Pentir

# Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Chwefror 2026
## yn Adeilad InTec Parc Menai am 7.00

1. **Presennol: /Present**

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

3. **Croeso / Welcome**

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 15fed o Ionawr / January 2026**

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Cadarnhau Cyllideb/gosod Praesept**
   ii. **Mantolen ariannol / Financial report**
   iii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/11/2025**
   iv. **Cais am Nawdd**
      1. **Ysgol Tryfan**
      2. **Carnifal Bethesda**
      3. **Llais Ogwan**
   v. **Cais i noddi Ysgol Tryfan**
   vi. **Polisia** Mabwysiadu Polisi Meinciau Fynwent / Adopt Policy Cementry Benches

8. **Cynllunio / Planning**

C25/0898/25/TC Dairy Building 2, Park Y Faenol, , Bangor, LL57 4BP Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon i gadarnhau defnydd yr adeilad fel gweithdy Diwydiannol Cyffredinol B2 Y Faenol

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**
   - **Costau Clirio Coed yng Ngaholfan Glasinfryn**
   - **Capel y Fynwent Llnau – costau £265 + TAW**

10. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

11. **Newyddion**